

Cyngor Tref Llandeilo Fawr **Llandeilo Fawr Town Council**



Cofnodion Cyfarfod o Gyngor Llawn Cyngor Tref Llandeilo, a gynhaliwyd ar nos Fercher y 26^{ain} o Orffennaf 2017 yn Neuadd y Sir, Llandeilo am 7.30yh.

Presennol: Y Maer y Cyng. Eifion Davies, y Dirprwy Faer y Cyng. Edward Thomas, y Cyng. Colin Jenkins, y Cyng. Dawn Wallace, y Cyng. Christopher Parish, y Cyng. Rebecca Butcher, y Cyng. Owen James, y Cyng. Christoph Fischer
Mr Roger Phillips (Clerc Tref)
Mr Christopher Plummer (Swyddog Cyllid)
Mr Desmond Davies (Swyddog Technegol)

Ymddiheuriadau: Y Cyng. Gordon Kliby, y Cyng. Lesley Prosser, y Cyng. Robert Jones.

Cyn y Cyfarfod, fe wnaeth yr Arolygydd Heddlu James Davies annerch y Cyngor ar werth y camerâu adnabod cerbydau a osodwyd ar yr A40 a'r A483 yn ddiweddar.

Datganiadau o Fuddiant

Arwyddodd y Cyng. Rebecca Butcher y Llyfr Datganiadau o Fuddiant, a gadawodd yr ystafell tra bo Cais Cynllunio E/35836 yn cael ei drafod.

Arwyddodd y Cyng. Edward Thomas y Llyfr Datganiadau o Fuddiant, a gadawodd yr ystafell tra bo Cais Cynllunio E/35836 yn cael ei drafod.

Materion yn ymwneud â'r Heddlu

Dywedodd y SCCH Roger Anthony bod yr Heddlu'n monitro grwpiau o yfwyr trwm sy'n ymgasglu yn y Dref. Roedd wedi ymweld â'r ysgolion cynradd lleol, cyn y gwyliau haf, i roi cyngor ar ddiogelwch, yn ogystal â rhoi arddangosiad CPR.

Adroddodd ef fod yr Ŵyl Jas wedi mynd yn dda.

Cof 105 / Gorff / 17 Adroddiad y Cynghorydd Sir

Roedd y Cyng. Edward Thomas wedi dosbarthu ei adroddiad cyn y Cyfarfod. Dywedodd bod Gŵyl y Synhwyrâu wedi derbyn grant o £1,500 gan CSG. Mae'r 'hen' llyfrgell wedi cael ei gwacau gan y gwasanaeth llyfrgelloedd a'i throsglwyddo i wasanaethau eiddo corfforaethol CSG. Roedd CSG nawr yn darparu gwasanaeth ar-lein i Gynghorwyr allu reportio pryderon am oleuadau diffygiol neu sbwriel.

Gobeithiwyd byddai'r gwaith ar lwybr Beicio Caerfyrddin yn cychwyn yn 2019.

Roedd y mabolgampau ar gyfer pob camp, a gynhaliwyd ar yr 16^{eg} o Orffennaf, yn llwyddiant a, diolch i nawdd, ni chostiodd geiniog.

Cof 106 / Gorff / 17 Cofnodion Blaenorol

Darllenwyd cofnodion Cyfarfod y Cyngor Llawn, a gynhaliwyd yn y Siambr yn Neuadd y Sir ar nos Fercher yr 28^{ain} o Fehefin 2017, a chadarnhawyd eu bod yn gofnod cywir, gyda'r diwygiad canlynol:-

Ynglŷn â Cof 81/Meh /17 Cyfrifon i'w Talu, mae angen ychwanegu'r taliadau canlynol:-

The Works (Llandeilo yn ei Blodau) £ 196.77

The Works (Llandeilo yn ei Blodau) £ 235.85

ABS Carmarthen DD 615(Neuadd y Sir) £ 55.95 plws £11.19 TAW cyfanswm £ 67.14
CGGC (gwein cyflogres Mehefin) £ 20.25 plws £4.05 TAW cyfanswm £ 24.30
Mark Davies (ffotograffau) £ 100.00

Cynigwyd gan y Cyng. Edward Thomas ac eiliwyd gan y Cyng. Owen James. Roedd pawb o blaid.

Darllenwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio, a gynhaliwyd yn y Siambr yn Neuadd y Sir ar nos Fercher y 12^{fed} o Orffennaf, a chadarnhawyd eu bod yn gofnod cywir.

Cynigwyd gan y Cyng. Rebecca Butcher ac eiliwyd gan y Cyng. Dawn Wallace. Roedd pawb o blaid.

Darllenwyd cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Cyllid, a gynhaliwyd yn y Siambr yn Neuadd y Sir, ac argymhellwyd eu bod yn cael eu derbyn.

Cynigwyd gan y Cyng. Colin Jenkins ac eiliwyd gan y Cyng. Christoph Fischer. Roedd pawb o blaid.

Cof 107 / Gorff / 17 Materion yn deillio o'r cyfarfodydd blaenorol

Ynglŷn â Cof 95 / Gorff / 17. Cynigodd y Cyng. Colin Jenkins na ddylai adroddiad David Rice gael ei anfon ymlaen i'r Grŵp Trefi Trawsnewid y funud hon. Eiliwyd y cynnig gan y Cyng.

Dawn Wallace. Roedd 3 phleidlais o blaid y cynnig.

Cynigodd y Cyng. Edward Thomas ddiwygiad, y dylid anfon yr adroddiad ymlaen i'r Grŵp Trefi Trawsnewid. Roedd 3 phleidlais o blaid y diwygiad. Fe wnaeth un Cynghorydd ymwrthod ac ni phleidleisiodd y Maer. Ni fyddai unrhyw gamau'n cael eu cymryd.

Ynglŷn â Cof 101/ Gorff /17. Adroddodd y Swyddog Cyllid ei fod wedi cyflwyno cais i adfer £7,434.42 mewn TAW.

Cof 108 / Gorff / 17 Gohebiaeth yn galw am ymateb

1. Tanja Neumayer-James ynglŷn â swyddi gwag ar Gorff Llywodraethu Ffairfach. Nodwyd.
2. Hugh Gwynne ynglŷn â chasglu sbwriel. Fe fydd yn cael ei drafod nes ymlaen yn y cyfarfod, dan y diweddaraf ar Drosglwyddo Asedau.
3. Steven Carter, Clerc Cyngor Tref Llanyddyfri. Cynigodd y Cyng. Dawn Wallace bod y cais i fenthyg system sain y Cyngor yn cael ei wrthod, ac eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Rebecca Butcher. Cafodd y cynnig ei gario. Fe wnaeth y Cyng. Christoph Fischer ymwrthod.
4. Owen Phillips, Cydlynnydd Digidol CSG. Cynigodd y Cyng. Colin Jenkins bod Mr Phillips yn cael ei wahodd i annerch y Cyngor cyn Cyfarfod y Cyngor Llawn ym mis Medi, ac eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Christopher Parish. Roedd pawb o blaid.
5. Westward Heating ynglŷn â phibau nwy. Cynigodd y Cyng. Colin Jenkins bod y Clerc yn rhoi gwybod i DAT bod y Cyngor yn hapus i'r pibau nwy i gael eu gosod yn y ffos tu allan, pan fydd wedi cael ei chloddio, ac eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Owen James. Y gost fyddai tua £300, a gofynnwyd i'r Swyddog Technegol i gysylltu â chontractwr lleol.
6. Adroddodd y Maer bod y llwybr troed ar waelod Teras Lewis wedi tyfu'n wyllt. Dywedodd y Cyng. Edward Thomas ei fod wedi derbyn cadarnhad y bydd CSG yn torri'r ardal o amgylchedd y sedd a'r bin. Cynigodd y Cyng. Eifion Davies bod y Clerc yn ysgrifennu i gwyno wrth Network Rail am y clawdd sy'n ffinio â'r llwybr troed sydd wedi tyfu'n wyllt, ac eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Owen James. Roedd pawb o blaid.

7. Cynigodd y Cyng. Colin Jenkins bod llythyrau llongyfarchiadau yn cael eu hanfon i'r canlynol:-
Logan Williams – 2^{il} yn y trinwyr ifanc,
Maisie Mackenzie am gynrychioli Cymru yng Ngemau Ieuencid y Gymanwlad yn y Bahamas.
Eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Edward Thomas. Roedd pawb o blaid.
8. Llythyr gan Bennaeth Ysgol Bro Dinefwr yn gofyn am rodd ar gyfer gwobr disgybl y flwyddyn.
Cynigodd y Cyng. Rebecca Butcher na ddylai'r Cyngor roi rhodd. Eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Christopher Parish.
Cynigodd y Cyng. Colin Jenkins ddiwygiad i roddi £200 at y wobwr. Eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Christoph Fischer.
Cafodd y cynnig gwreiddiol ei gario gan 4 pleidlais i 3. Fe wnaeth y Maer ymwrthod.

Cof 109 / Gorff /17 Gohebiaeth er gwybodaeth

1. Comisiwn Ffiniau Cymru ynglŷn ag ymgynghoriad ar y trefniadau etholiadol newydd. Cyfarfod i'w gynnal yn Neuadd y Sir ar yr 20^{fed} o Fedi. Byddai'r Maer yn mynychu.
2. Robert Edgecombe ynglŷn ag atborth ar yr hyfforddiant diweddar ar y Côt Ymddygiad. Nodwyd.
3. Nigel Davies. Llythyr yn canmol y Cyngor ar y gwelliannau a wnaed i gyflwr Parc Penlan a gwaith y contractwr Hugh Gwynne. Byddai'r Clerc yn anfon y llythyr ymlaen i'r contractwr.
4. Ymddiriedolaeth Hywel Dda yn gofyn am atborth ar brofiadau'r claf o ymweliadau Ysbyty. Nodwyd.

Fe wnaeth y Maer ddatgan buddiant yn yr eitem hon, oherwydd swydd ei wraig gyda'r Ymddiriedolaeth.

5. Y Cyng. Colin Jenkins, y Maer yn 2016/17, adroddodd y byddai'n rhoddi'r arian canlynol o'i gronfa elusen, a godwyd yn ystod ei flwyddyn yn y swydd:-
Ambiwlans Awyr Cymru - £1,585.82
Cronfa Les Diffoddwyr Tân - £1,585.82
Nodwyd.

Cof 110 / Gorff / 17 Materion Ariannol

1. Cyfrifon i'w talu.

	Net	TAW	Cyfanswm
Orchardweb (diweddarau'r wefan)	£ 35.00		£ 35.00*
CGGC (gwein cyflogres Gorffennaf)	£ 20.25	£ 4.05	£ 24.30*
Hugh Gwynne (torri bencydd glaswellt)DD612	£ 300.00	£ 60.00	£ 360.00*
Lewis Printers 13/6/17 (amlenni)	£ 79.00	£ 15.80	£ 94.80*
Gŵyl Lenyddol Llandeilo			£ 200.00*
LBS Home & Garden (vis) 26 ^{ain} o Fai			£ 64.39
Elusen y Maer (Ambiwlans Awyr Cymru)			£ 1,585.52#
Elusen y Maer (Cronfa Les Diffoddwyr Tân)			£ 1,585.52#
Trefeillio Llandeilo			£ 500.00#

du - debyd uniongyrchol # - sic * - bacs

Argymhellwyd bod y rhain yn cael eu talu. Cynigwyd gan y Cyng. Colin Jenkins ac eiliwyd gan y Cyng. Christoph Fischer. Roedd pawb o blaid.

Cof 111 / Gorff / 17 Materion Ariannol Eraill

Adroddodd y Swyddog Cyllid bod y Bond Adnau Llog Uchel o £30,000 wedi cael ei ail-fuddsoddi ar yr 20^{fed} o Orffennaf. Roedd y Bond wedi cronni llog o £33.63 dros y 6 mis blaenorol.

Cof 112 / Gorff / 17 Adroddiad y Swyddog Technegol

Roedd adroddiad Mr Davies wedi cael ei ddsbarthu ymlaen llaw. Roedd ef wedi cyfarfod gyda Westward Heating mewn perthynas â symud y bibell nwy allanol bresennol, o leoliad agored i leoliad dan ddaear, gyda phibell blastig.

Roedd angen allwedd mynediad i Barc Le Conquet a Pharc Penlan ar gyfer y contractwr. Byddai'r Cyng. Edward Thomas yn cysylltu â CSG i ddatrys y mater.

Cof 113 / Gorff / 17 Y Diweddaraf ar Drosglwyddo Asedau

Adroddodd y Cyng. Edward Thomas am gyfarfod yr Is-grŵp Trosglwyddo Asedau, a gynhaliwyd ar y 25^{ain} o Orffennaf. Roedd y cyfreithiwr yn dal i aros am gytundeb prydles Parc Le Conquet. Byddai cyfarfod yn cael ei drefnu gyda Chyngor Tref Caerfyrddin, i geisio cyngor ar reoli'r Parciau. Byddai'r Clerc a'r Swyddog Technegol yn mynychu gyda'r Cyng. Thomas. Roedd yr Is-grŵp yn argymhell eu bod yn gofyn i Hugh Gwynne i gasglu sbwriel ddwywaith yr wythnos ym Mharc Le Conquet ac unwaith yr wythnos ym Mharc Penlan. Cynigodd y Cyng. Christoph Fischer bod yr argymhelliad hwn yn cael ei dderbyn. Eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Owen James. Roedd pawb o blaid.

Cynigodd y Cyng. Edward Thomas bod dyfynbris o £110 yn cael ei dderbyn am atgyweirio'r giât ym Mharc Penlan, ac eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Christopher Parish. Roedd pawb o blaid. Byddai'r contractwr trydanol Charles Sams yn cwrdd gyda CSG, i ddatrys problem drydanol yn y pafiliwn Bowls.

Cof 114 / Gorff / 17 Ceisiadau Cynllunio i'w Penderfynu

Ni chyfranogodd y Cyng. Edward Thomas yn yr eitem hon, oherwydd nad yw'n aelod o Bwyllgor Cynllunio'r Cyngor.

E/35835 Darparu a gosod arwydd crog ar y wal flaen yn 2, Stryd y Brenin. Hefyd, darparu a gosod plac enw ar y wal flaen ac amnewid yr arwydd a beintwyd â llaw ar wynebfwrdd y siop.

Sylw: Dim gwrthwynebiad, ar yr amod ei fod yn cyd-fynd â steil yr adeiladau cyfagos.

E/35816 Trawsnewid atig i fod yn llety y gellir byw ynddo, amnewid ystafell haul, estyniad gyda balconi drosto, altradau mewnol ac ailosod canopi blaen croes (ôl-weithredol) yn 21, Heol Latimer.

Sylw: Dim gwrthwynebiad, ar yr amod eu bod yn cwrdd â'r holl reoliadau cadwraeth.

Cof 115/ Gorff / 17 Trawsgludiaeth a Phrifyrdd

1. Ateb Llywodraeth Cymru i lythyr y Clerc yn gwrthwynebu'r cyfyngiadau aros arfaethedig yn Ffairfach. Byddai ymgynghoriadau pellach yn cael eu cynnal cyn gwneud y penderfyniadau terfynol. Nodwyd.
2. Adam Price AC, yn dweud y byddai'n crybwyll pryderon y Cyngor a'r gymuned am y cyfyngiadau aros arfaethedig yn Ffairfach, ger bron Llywodraeth Cymru. Nodwyd.

3. Roedd y Cyng. Colin Jenkins wedi derbyn cwynion am gerbydau'n parcio ym mae llwytho Gerwyn's Fruit & Veg, tu allan i'r amserau a gytunwyd. Gofynnwyd i'r Clerc i ysgrifennu at yr Asiantaeth Cefnffyrdd.
4. Roedd y Maer yn pryderu am y llysdyfiant a oedd wedi tyfu'n wyllt ar hyd y llwybr troed ar waelod Teras Thomas. Byddai'r Cyng. Edward Thomas yn cysylltu â Pharcmyrn CSG.

Cof 116/ Gorff /17 Adroddiad y Maer

Rhoddodd y Maer yr adroddiad canlynol ar y digwyddiadau a fynychodd ar ran y Cyngor:-

- 15^{fed} o Orffennaf Mynychu cyngerdd agoriadol Gŵyl Gerdd Llandeilo.
 16^{eg} o Orffennaf Mynychu Diwrnod Agored Cymdeithas Chwaraeon Llandeilo ar gaeau Tregib yn y bore, ac yna Diwrnod Agored y Clybiau Bowls, Tennis a Seiclo yn y prynhawn.
 20^{fed} o Orffennaf Mynychu agoriad Gŵyl Llwybr Celfyddydau Dyffryn Tywi.
 25^{ain} o Orffennaf Mynychu ysgol GG Llandeilo i lansio prosiect ar y cyd rhwng CSG a Llywodraeth Cymru.

Cof 117 / Gorff / 17 Adroddiadau Eraill

1. Adroddiad yr Is-grŵp Goleuadau Nadolig.

Dywedodd y Swyddog Technegol ei fod bron wedi cwblhau'r gwaith o ailwampio'r motiff Nadolig Llawen mawr. Cytunwyd byddai 4 motiff LED newydd, i'w gosod ar waliau, yn cael eu prynu yn lle'r hen rai o fath tyngsten am bris o £1,000, gyda £250 arall yn cael ei dalu am waith atgyweirio pellach. Dywedodd y Swyddog Cyllid bod anfoneb am £515 wedi cael ei dalu eisoes am ddefnyddiau, sy'n golygu y gorwariwyd ar y gyllideb a gytunwyd. Cynigodd y Cyng. Owen James bod y £300 a arbedwyd, oherwydd y penderfyniad i beidio rhoi rhodd tuag at wobwr yr ysgol, yn cael ei ychwanegu at y gyllideb goleuadau Nadolig. Eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Edward Thomas. Roedd pawb o blaid. Cytunwyd i brynu Coeden Nadolig i'r Dref, i'w gosod ar Sgwâr Bradford, am bris o £800. Cytunwyd i anfon llythyrau i fusnesau yn gofyn iddynt am roddion gwirfoddol tuag at y goeden.

2. Y diweddaraf ar y Wefan

Adroddodd y Cyng. Rebecca Butcher ei bod hi a'r Cyng. Christoph Fischer wedi cwrdd gyda'r Clerc, i drafod newid posib i ddiweddarau'r Wefan. Cytunwyd i wahodd Andy o Orchardweb i gwrdd â'r is-grŵp ar y 7^{fed} o Awst, i drafod y newidiadau i'r wefan ymhellach.

Cof 118 / Gorff / 17 Doedd dim eitemau arall o fusnes yr oedd y Cadeirydd, oherwydd amgylchiadau arbennig, yn dymuno eu hystyried fel mater o frys, yn unol ag adran 100 B (4)(B) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

Daeth y cyfarfod i ben am 9.25yh.